1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.cymru / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Alwyn Jones
Prif Weithredwr
Neuadd y Ddinas
Wrecsam
LL11 1AY

**Cyfeirnod:** GL AJ 280125
**Dyddiad cyhoeddi:** 29 Ionawr 2025

Annwyl Alwyn

## Rhaglen Archwilio Perfformiad 2024

Byddwch yn ymwybodol y byddai Archwilio Cymru fel rhan o’r drefn arferol wedi cyhoeddi Cynllun Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2024 erbyn hyn.

Fodd bynnag, nodwyd problem dechnegol yn ystod archwiliad datganiadau ariannol 2022-23 yn ymwneud â'r cronfeydd cyfalaf na ellir eu defnyddio. Mae Tîm Cyllid y Cyngor yn ymgymryd â gwaith ar y Gofrestr Asedau Sefydlog i ddatrys y mater, sy'n gymhleth iawn, ac sy'n cymryd cryn dipyn o amser. Bydd fy nghydweithwyr Archwilio Ariannol yn cyflwyno diweddariad manylach ar archwiliad y cyfrifon hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio maes o law.

Tra bod datganiadau ariannol 2022-23 yn dal heb eu harchwilio, nid wyf yn gallu cwblhau a chyhoeddi ein gwaith cynllunio ar gyfer ein harchwiliad o gyfrifon 2023-24, ac felly cwblhau ein Cynllun Archwilio Manwl ar gyfer 2024.

Fodd bynnag, mae elfen perfformiad Cynllun Archwilio 2024 yn mynd rhagddi, ac mae angen i mi eich hysbysu o'n rhaglen waith arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Rwy’n nodi isod fanylion a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni’r allbynnau a gynlluniwyd:

**Arddangosyn 1: Allbynnau a gynlluniwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd ac asesu risg** | Prosiect i nodi lefel sicrwydd archwilio a/neu lle gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Parhaus |
| **Gwaith prosiect lleol – Gwaith dilynol ar yr Adolygiad o drefniadau llywodraethu gyda phwyslais penodol ar y Gwasanaeth Cynllunio** | Gwaith dilynol ar ein hadolygiad ym mis Ionawr 2024. | Rhagwelir y bydd y gwaith dilynol cychwynnol rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025. Y cynnig ar hyn o bryd yw cyhoeddi gwaith dilynol pellach yn ddiweddarach yn 2025.<br><br>Bydd amserlenni ar gyfer y prosiect yn cael eu trafod gyda'r Cyngor a bydd y manylion yn y briff prosiect penodol a gynhyrchwyd ar gyfer yr archwiliad. |
| **Gwaith prosiect lleol – Gwastraff ac Ailgylchu** | Adolygiad yn canolbwyntio ar gynlluniau'r Cyngor i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol. | Bydd amserlenni ar gyfer y prosiect yn cael eu trafod gyda'r Cyngor a bydd y manylion yn y briff prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer yr archwiliad. |


Please contact us in Welsh or English / Cysylltwch â ni’n Gymraeg neu’n Saesneg.

Rwy'n gobeithio y bydd y diweddariad hwn o ryw ddefnydd, ac mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod unrhyw ran o'r uchod yn fanylach.

Yn gywir

Gareth Lucey
Cyfarwyddwr Archwilio


Please contact us in Welsh or English / Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.